

# Duw Prydferthwch

## Adnodau agoriadol:

“Bydded prydferthwch yr Arglwydd ein Duw arnom ni: llwydda waith ein dwylo inni, llwydda waith ein dwylo.” *Salm 90: 17.*

“Byddaf fel gwllith i Israel; blodeua fel lili a lleda'i wraidd fel pren poplys. Lleda'i flagur a bydd ei brydferthwch fel yr olewydden, a'i arogl fel Lebanon.” *Hosea 14: 5 – 6.*

## Geiriau agoriadol:

Nid cyfiawnder deddfol, oer, yw daioni Duw, ond cariad, ac y mae gwir gariad yn brydferth a deniadol. Wrth i ni dyfu yng nghariad Duw rhannwn hefyd yn ei brydferthwch.

“Fel y bydd cariad Duw yn cynyddu ynot, y bydd dy brydferthwch yn cynyddu oherwydd cariad yw prydferthwch yr enaid” *Awstin Sant.*

Meddyliwch am unrhyw wrthrych prydferth – golygfa, adeilad, blodyn neu berson a hoeliwch eich meddwl ar y gwrthrych..... Gadewch i'r prydferthwch eich llenwi.....

## Gweddi:

Maddau i ni, Arglwydd,  
am anghofio dy ddelw di arnom.  
Ail-lunia ni;  
anadla fywyd newydd ynom,  
a gwisg ni â'th brydferthwch,  
fel yr adlewyrchwn  
dy ogoniant yn y byd. Amen.

**Emyn:** 104 Caneuon Ffydd.

### **Myfyrdod:**

#### **Ystyriwch y dywediadau hyn:**

Pan fyddwch yn cyrraedd canol a chalon bywyd, bryd hynny byddwch yn darganfod prydferthwch ymhob dim, hyd yn oed pan fo'r llygaid wedi bod yn ddall i brydferthwch.

*Kahil Gibran, Sand and Foam,*

Mae'n rhan o fywyd pob unigolyn i ddatblygu a chreu prydferthwch yn ei fywyd, unigryw ei hun. Mae elfen o brydferthwch ymhob un ohonom.

*Henry Ward Beecher, 1887.*

Prydferthwch yw stamp Duw ar y greadigaeth.

Fe ymddangosodd Rhywun yn ein byd unwaith a oedd mor ogoneddus ei wedd a'i fywyd, fel na allai dynion feddwl amdano ar wahân i'r prydferthwch mwyaf a welodd eu llygaid

### **Gweddi:**

Arglwydd,  
llenwaist ein bywydau â phrydferthwch,  
ac rwyf wedi'n hamgylchynu  
â phethau hardd a phrydferth.  
Am ysblander y golygfeydd o'n cwmpas  
y mynyddoedd, y bryniau a'r dyffrynnoedd,  
am yr afonydd a'r llynnoedd  
am y môr a'r traethau  
am y meysydd,  
y blodau, y coed a'r llwyni,  
yr adar a'r mân bryfetach  
am amrywiaeth glan y môr  
a holl ryfeddodau  
dyfnderoedd y moroedd.  
Diolch i ti am ysblander a chyfoeth  
dy greadigaeth di.  
Diolchwn i ti am brydferthwch perthynas,  
am gynhaliaeth y naill i'r llall,

am lawenydd a hapusrwydd  
am ofal a chyfeillgarwch  
ac yn nhreialon bywyd  
yr wyt ti yn ein hannog  
i ddibynnu y naill ar y llall  
ac i roi ein holl hyder  
ynot ti.  
Gwyddom, Arglwydd am rai heddiw,  
sy'n methu gweld y prydferthwch  
boed yn y greadigaeth  
na hyd yn oed ym mherthynas  
cyd-ddyn.  
Cyflwynwn felly bawb, heddiw,  
sy'n amau dy gonsŷrn a'th ofal,  
y rhai sy mewn tristwch a galar,  
y rhai sy mewn afiechyd a blinder,  
mewn unigrwydd ac anobaith.  
Wnei di wrando ar ein hymbiliau  
ar eu rhan, ac ar ran ein hunain.  
Boed i ni a hwythau  
ddarganfod prydferthwch  
dy fywyd di yn ein bywyd ni. Amen.

### **Cyfnod o ddistawrwydd:**

### **Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:**

**Eryn:** 131 Caneuon Ffydd.

### **Myfyrdod:**

Daeth cerddwr, oedd wrth ei fodd yn cerdded y mynyddoedd a'r bryniau ar draws bugail yn hel defaid – 'hel mynydd' oedd dywediad y bugail. Dechreuodd y ddau sgwrsio am hyn a'r llall. Arweiniodd y sgwrs at y niwl oedd yn dechrau ymddangos ar gopa'r mynydd. Gofynnodd y cerddwr i'r bugail, "Beth fyddwch chi'n ei wneud os ydych yn cael eich

dal yn y niwl?" Ateb pendant y bugail oedd "Aros yn llonydd nes bydd o'n clirio." Mor wir ydi hyn pan fo dyn yn cael ei ddal yn niwloedd bywyd. Bryd hynny mor anodd ydi gweld y ffordd ymlaen. Gwylw'n rhag gwneud penderfyniadau mawr pan fo'r niwl yn cau amdanom. Mae'n well aros yn ein hunfan a disgwyl i'r niwl glirio. Yr unig sicrwydd sydd gennym ydi fod y niwl yn siŵr o glirio.

**Darllen:** Salm 27: 1 – 10.

**Cefndir:**

Salm i godi calon ydi hon. Doedd dim arlliw o'r niwl yn unman – mae'n amlwg ei bod yn ddiwrnod gogoneddus oherwydd yn ôl y Salmydd, "Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm Gwardigaeth" adn 1. Mae'n mynd ati i restru'i elynion gan ddechrau gyda'i wrthwynebwy'r, yna'n mynd yn ei flaen i wynebu byddin a hyd yn oed ryfel ac mae'n barod i'w hwynebu oll "eto" meddai. "fe fyddwn yn hyderus" adn 3. Mae hwn yn hyder cynyddol, "pe bai fy nhad a'm mam yn cefnu arnaf, byddai'r Arglwydd yn fy nerbyn" adn 10.

Mae'n werth nodi'r troednodyn sy'n rhoi cyfieithiad arall i ni o ail gymal adn 8. sef 'Ceisiwch fy wyneb' yn hytrach na 'Ceisia ei wyneb' fel y clywsom yn y darlleniad. Mae'r Salm drwyddi draw yn canolbwyntio ar un dyhead o gael bod yn agos at Dduw – mor agos nes gweld prydferthwch ei wyneb a derbyn ei air. Mae hyn yn ymateb i wahoddiad Duw i'r rhai sy'n ei addoli "ceisiwch fy wyneb." Wrth i'r addolwyr chwilio a darganfod prydferthwch yr wyneb hwn bydd yn gallu ymateb wedyn yn hyderus fel y gwna'r Salmydd yn y Salm hon a bydd y farddoniaeth, y rhythm a'r miwsig yn llenwi ei fywyd a'i galon. Byrdwn y Salmydd, i'r rhai sydd heb ddarganfod yr uchelfannau hyn yw, "Disgwyl wrth yr Arglwydd, bydd gryf a gwrol dy galon a disgwyl wrth yr Arglwydd" adn 14. Dal ati, mi ddaw y dydd! Neu â defnyddio geiriau'r myfyrdod, "Aros yn dy unfan nes bydd y niwl wedi clirio. Mae siŵr o glirio!"

**Emyn:** 701 Caneuon Ffydd.

### **Llais 1:**

Sonia seintiau'r oesoedd yn aml am “nos ddu'r enaid.” Cyfnod oedd hwn o sychder ysbrydol, pan oedd hi'n wirioneddol dywyll ar y credadun heb lewyrch o oleuni o'i gwmpas. Mewn cyfnodau o 'dywyllwch' fel hyn y peryg yw i ni gefnu ar Dduw, digalonni a throi cefn ar y pethau ysbrydol. Fe all argyfwng, profedigaeth neu siomedigaeth esgor ar y 'tywyllwch' hwn. Yn y Testament Newydd mae Iesu yn annog ei ddisgyblion i “aros” a pheidio cefnu:

“Os arhoswch ynof fi, ac os erys fy ngeiriau ynoch chwi, gofynnwch am beth a fynnwch, ac fe'i rhoddir ichwi.....Arhoswch yn fy nghariad i. Os cadwch fy ngorchmynion fe arhoswch yn fy nghariad, yn union fel yr wyf fi wedi cadw gorchmynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef” Ioan 15: 7 – 10. Beth yn union yw ystyr “Aros yn Nuw” neu “Aros yn yr Arglwydd”?

### **Llais 2:**

Dyn tawel, parchus oedd Penri ond roedd ganddo broblem. Bob hyn a hyn byddai'n mynd allan i ddiota a byddai'r un peint yn mynd yn wyth ag yn naw a dyna lle byddai'r dyn tawel, parchus yn newid ei bersonoliaeth yn llwyr. Byddai'n dechrau ymladd â phawb oedd o'i gwmpas, dynion a merched fel ei gilydd. Droeon ar nos Sadyrnau byddai wedi'i gloi mewn cell yn swyddfa'r heddlu gan obeithio y byddai wedi sobri erbyn y bore. Bryd hynny byddai'n cael ei ollwng yn rhydd. Bu o flaen ei well sawl tro ond doedd dim yn tycio. Ar ôl ysbaid o fywyd tawel, heddychlon, doi'r ysfa i fynd i feddwi a dyna lle roedd y dyn tawel yn cael ei feddiannu'n llwyr gan yr alcohol. Gwrthodai'n lân a mynd am gyngor gan ddweud, nad oedd ganddo broblem. Ni fyddai'n cofio nemor ddim am ei anturiaethau ymladdgar a'i gadw dros nos yng nghell yr heddlu.

Symudodd pâr oedd wedi ymddeol i fyw drws nesaf i Penri. Cyn-uwcharolygydd gyda'r heddlu oedd y gŵr a'r wraig yn gyn-athrawes. Gan fod Penri â chryn ddiddordeb yn yr ardd byddai'n cael sgwrs feunyddiol â Medwyn, y cyn-uwcharolygydd. Gwyddai am broblem Penri, felly mentrodd, un diwrnod, godi'r mater. Swil iawn fu Penri a chynnil iawn ei atebion. Un noson, ar ôl derbyn gwahoddiad i gael pryd

o fwyd ar aelwyd Medwyn, agorodd Penri ei galon a chydabod fod ganddo broblem. Dyma'r trobwynt.

Bu Medwyn a'i wraig yn gefn mawr iddo a phan fyddai'r ysfa i fynd allan yn llethu Penri, y peth cyntaf fyddai'n ei wneud oedd codi'r ffôn, er mai dim ond drws nesaf oedd yn byw, a chael sgwrs â Medwyn. Treuliai'r noson wedyn yn cael glasiad o gwrw, sgwrs a phryd o fwyd.

Yr unig ffordd i Penri ddygydd â'i broblem oedd cadw mewn cysylltiad â'i gymydog. Petai'n colli cysylltiad mae'n bur debyg y byddai'n mynd dros ben llestri. Bellach mae'n dibynnu'n llwyr ar gryfder cymeriad ei gymydog. Mae 'aros yn Nuw' yn golygu rhywbeth tebyg i hyn.

### **Llais 3:**

Cyfrinach bywyd Iesu oedd ei gyswilt agos â Duw. Droeon byddai Iesu, yn ystod ei weinidogaeth yn mynd i le distaw er mwyn cael bod ar ei ben ei hun, mewn perthynas agos â Duw: "Un o'r dyddiau hynny aeth allan i'r mynydd i weddio, a bu ar hyd y nos yn gweddio ar Dduw." Luc 6: 12.

"Wedi eu gollwng aeth i fyny'r mynydd o'r neilltu i weddio, a phan aeth hi'n hwyr yr oedd yno ar ei ben ei hun," Mathew 14: 23.

Sut y gallwn ni 'aros yn Nuw'?

Byw bywyd o weddi.

Pa mor aml fyddwch chi'n gweddio? Byth! Dim ond pan fyddwn yn dod i oedfa a phryd hynny mae'n anodd iawn canolbwyntio gan fod meddwl yn crwydro – ydw'i wedi cloi y drws cefn? ydw'i wedi diffodd y stôf? tybed rois i'r cig yn y popty? beth wnâi, mynd efo'r plant i Landudno yfory ai peidio? Dyma'r math o gwestiynau sy'n troi yn ein meddyliau yn ystod y weddi gyhoeddus. Neu efallai ein bod yn dweud ein pader cyn mynd i gysgu bob nos.

Beth am osod ryw fath o amserlen i ni ein hunain. Dechrau pob diwrnod â gweddi a darllen rhan fechan, adnod efallai, o'r Beibl. Mae llyfrau ar gael i'n helpu. Beth am 'Grym y Gair' yn Gymraeg. Ar gyfer pob dydd mae adnod/adnodau, esboniad byr a gweddi. Dywedodd rhywun mai Domestos yw gweddi sy'n ein cadw rhag mynd i'r afael a llygredd pechod.

### **Cofio am Iesu.**

Bydd hyn yn golygu trefnu'n bywyd, trefnu'n gweddïau a'n hymbiliadau, trefnu distawrwydd a threfnu amser i greu perthynas â Duw. Ystyr hyn yw nad oes diwrnod yn mynd heibio heb roi sylw i Dduw yn ein bywydau. Mae'r gwir Gristion yn cyfoethogi ei fywyd ei hun. Mae ei gysylltiad a'i berthynas feunyddiol yn ei wneud yn gangen ffrwythlon i Dduw.

### **Gweddï:**

Aros gyda ni, Arglwydd,  
oherwydd y mae'n dyddiau'n gwibio heibio  
ac nid ydym eto wedi "ceisio dy wyneb,"  
gan fod pethau eraill, dibwys wedi mynd â'n bryd.

Aros gyda ni, Arglwydd,  
oherwydd y mae'n dyddiau'n gwibio heibio  
ac nid ydym eto wedi gweld dy wyneb di  
ymhob un o'n brodyr a'n chwiorydd,  
gan ein bod wedi rhoi gormod o sylw i ni ein hunain.

Aros gyda ni, Arglwydd,  
oherwydd y mae'n dyddiau'n gwibio heibio  
ac nid ydym eto wedi gweld dy wyneb di  
yng nghri ddolurus y newynog a'r sychedig  
gan ein bod wedi pentyrru ein byrddau a'n cypyrddau ein hunain.

Aros gyda ni, Arglwydd,  
oherwydd y mae'n dyddiau'n gwibio heibio  
a ninnau wedi troi clust fyddar i'th Air  
ac wedi methu clywed dy Air  
yng nghwynfan ein brodyr a'n chwiorydd  
am ein bod mor hunanol yng nghanol sŵn a dwndwr ein hunain.

Aros gyda ni, Arglwydd  
yn y gobaith y gwelwn  
y tywyllwch yn cael ei ymlid

gan dy oleuni a'th brydferthwch di.  
A bydd dy gwmni di  
yn ein dyrchafu bob dydd. Amen.

### **Munud i feddwl:**

Ac y mae rhywrai yn bod heb un ymdeimlad o ddirgelwch pethau, - dirgelwch bywyd, dirgelwch y cread, dirgelwch Duw. Y mae popeth yn glir a syml i'r bobl hyn. Hynny sydd am fod eu byd mor fach. Y mae llusern bychan bach yn ddigon i oleuo eu byd bychan bach hwy. Y mae kannwyll frwyn yn ddigon i lenwi gwniadur â'i phelydrau. Nid oes dirgel ym myd bach y gwybedyn, dim *mystery* ym myd y trychfilyd. Byd heb orwelion ydyw, - heb na ffenestri na drysau yn agor i gyfeiriad yr annherfynol.

Yn yr eithaf arall y mae rhywrai yn canfod dirgelwch ym mhobman a phopeth ac yn methu â chanfod goleuni mewn dim. Tywyllwch dibelydr yw'r byd a bywyd i'r bobl hyn. Ac am Dduw, meddant, ni allwn wybod dim byd amdano, hyd yn oed os gwyddom ei fod...

Yn y canol rhwng yr eithafion hyn y mae saint Duw. Pobl ydynt hwy sy'n ymdeimlo â dirgelwch pethau. Ond yn lle eu parlysu a'u llanw ag anobaith, y mae'r ymdeimlad hwn yn eu symbylu i addoliad a fo'n llawn o wylder a pharchedig ofn. Ac onid yw graddau o ddirgelwch yn rheidiol fel cefndir addoliad a defosiwn? Prin y gallem addoli Bod a fyddai'n ddigon bach inni allu ei amgyffred yn drwyadl a gweled trwyddo i'r pen draw. Rhaid cael y mawreddog, yr aruthrol a'r dwfn-ddirgel i dynnu allan ein haddolgarwch i'r eithaf. Nid y llyn bychan yna y gallaf weled ei waelod a chanfod ei holl derfynau ag un edrychiad sy'n deffro'r teimladau dyfnaf yn fy mynwes, ond yn hytrach y cefnfor na ellir plymio'i ddyfnder na mesur ei orwelion. "And still beyond the sea there is more sea." A dyna yw Duw i'r addolwr defosiynol – môr heb na gwaelod na glan na thrai – "dŵr i nofio heb fynd trwyddo," fel y canodd Ann Griffiths.

D. Miall Edwards.

**Emyn:** 725 Caneuon Ffydd.



**Y Fendith:**

Aros gyda ni,  
a ninnau gyda thithau.  
Hyn yw bywyd yn wir. Amen.